**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Dylanwadu ar y broses o Foderneiddio Polisi Caffael yr UE

Mai 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Dylanwadu ar y broses o Foderneiddio Polisi Caffael yr UE

Mai 2012

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddu a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafnidiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Sefydlodd y Pwyllgor grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys pum Aelod i ymchwilio i ddiwygio polisi caffael cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd (UE) a cheisio dylanwadu ar y broses hon. Aelodau'r grŵp oedd Julie James (Cadeirydd), Byron Davies, Eluned Parrott, David Rees a Leanne Wood. Bu i'r grŵp gyfarfod yn anffurfiol yn breifat o fis Rhagfyr 2011 tan fis Mai 2012.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Nick Ramsay (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Byron Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Dafydd Elis-Thomas**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberavon



**Ken Skates**
Llafur Cymru
De Clwyd



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn yn aelod o'r Pwyllgor hefyd yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Leanne Wood**
Plaid Cymru
Canol De Cymru

# Cynnwys


**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion y Pwyllgor** ..... **7**

**Cyflwyniad** ..... **10**

**Rhan 1: Cynnig yr UE am gyfarwyddeb ddrafft yn ymdrin â chaffael cyhoeddus** ..... **12**

Symleiddio ..... 12

Hyblygrwydd y Gweithdrefnau Caffael ..... 12

Corff Trosolwg Cenedlaethol ..... 13

Trothwyon ..... 14

Rhoi'r gorau i wahaniaethu rhwng Gwasanaethau Rhan A a Rhan B 14

Lotiau ..... 15

Cyflawni amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol ..... 15

Contractau neilltuedig ..... 15

Datblygu Cynaliadwy ..... 16

Angen eglurhad ..... 16

Y Gyfarwyddeb Unioni Cam ..... 16

Trosi'r Cyfarwyddebau ..... 17

**Rhan 2: Sector Caffael Cymru** ..... **18**

Rheoli Risg ..... 18

Gyrru Creadigrwydd ..... 19

Mynd i'r Afael â'r Bwlch Sgiliau ..... 20

Statws Caffael ..... 22

Arweinyddiaeth Strategol ..... 22

Arferion da cyson ..... 24

Gwella mynediad i BBaCh ..... 26

Deialog cyn-caffael gyda'r sector busnes ..... 26

Defnyddio Fframweithiau a Rheoli Cadwyni Cyflenwi ..... 27

Creu Lotiau ynteu Cyfuno Contractau ..... 28

Cydweithio ........................................................................ 29
Hyrwyddo amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol............. 29
**Atodiad A – Cylch gorchwyl ........................................................ 31**
**Atodiad B – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Menter a Busnes at y Gweinidog Cyllid ........................................................ 32**
**Atodiad C – Adroddiad Sybsidiaredd y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ........................................................ 35**
**Tystion ........................................................ 44**
**Ymatebion i'r Ymgynghori ........................................................ 47**

## Rhagair y Cadeirydd

Mae caffael cyhoeddus yn sbardun pwysig i dwf economaidd a chyflogaeth. Mae'r ymchwiliad hwn wedi dangos sut y gall defnydd creadigol o gaffael sector cyhoeddus helpu i sicrhau bod gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Mae cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i ddiwygio a moderneiddio polisi caffael cyhoeddus yn rhoi cyfle pwysig i Gymru edrych ar ei threfn gaffael bresennol a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i unrhyw rwystrau i fusnesau yng Nghymru sy'n ceisio cael mynediad i'r farchnad.

Mae'r adroddiad hwn mewn dwy ran – mae rhan un yn tynnu sylw at faterion y credwn y dylid eu hystyried yn ystod trafodaethau ar Gyfarwyddebau newydd yr UE ar gaffael, a sut y cânt eu trawsosod yn rheoliadau Cymru. Yn bwysig, canfuwyd bod cynnig yr UE i greu un 'corff arolygu' cenedlaethol ar gyfer caffael yn y DU yn torri egwyddor sybsidiaredd, ac nad oedd yn cydnabod datganoli. Mae Cytuniad Lisbon yr Undeb Ewropeaidd yn caniatáu i seneddau cenedlaethol herio cynigion deddfwriaethol os ystyrir eu bod yn torri egwyddor sybsidiaredd: dylai'r gweithredu hynny ar lefel Undeb 'ychwanegu gwerth' a dylid ond ei wneud pan na ellir cyflawni'r amcanion drwy weithredu ar lefel leol, genedlaethol neu ranbarthol. Dyma'r tro cyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fynegi pryder o dan y mecanwaith rhybudd cynnar ar gyfer seneddau rhanbarthol yng Nghytuniad Lisbon.

Mae Rhan 2 yr adroddiad yn canolbwyntio ar sector caffael cyhoeddus Cymru. Y canlyniad pwysicaf yw nad yw rheolau caffael presennol yr UE eu hunain yn broblem, ond y ffordd y cânt eu rhoi ar waith sy'n arwyddocaol. Mae polisi Manteision Cymunedol Llywodraeth Cymru yn dangos yn glir sut y gellir cyflawni amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gaffael, ac mae wedi cychwyn ar y broses yn dda, ond mae'n rhaid gweithredu hynny'n fwy eang ar draws awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a gwneud ymdrech gydunol i ddod â'r cyfan ohonynt i'r safon orau.

Rydym yn nodi'r '3 C' sy'n angenrheidiol i sicrhau sector caffael effeithlon ac effeithiol yng Nghymru - creadigrwydd, cymhwysedd a chapasiti. Mae'n rhaid bod yn llawer mwy uchelgeisiol ynghylch y

sector caffael cyhoeddus, ac mae arweinyddiaeth strategol yn hanfodol i godi statws caffael, fel proffesiwn ac o ran yr hyn y gall ei gyflawni.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi caffael cyhoeddus, dan arweiniad John McClelland CBE. Mae ein hadroddiad yn gwneud nifer o argymhellion i'w hystyried ochr yn ochr â'r adolygiad, ac edrychwn ymlaen at gael ymateb Llywodraeth Cymru a chanlyniad yr adolygiad. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'n ofalus ddatblygiadau mewn perthynas â chynigion y Comisiwn Ewropeaidd i foderneiddio polisi caffael yr UE.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd i gynorthwyo gyda'r ymchwiliad hwn.

Julie James AC
Cadeirydd – Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Bolisi Caffael yr UE

## Argymhellion y Pwyllgor

Rhestrir argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Cyfeiriwch at dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i werthuso effaith y Gyfarwyddeb Unioni Cam ar draws Aelod Wladwriaethau a rhanbarthau'r UE a chymryd camau cyflym a phriodol ar sail y casgliadau; ac ystyried sut mae'r Gyfarwyddeb Unioni Cam yn rhyngweithio â darpariaethau'r Cyfarwyddebau Caffael Drafft. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd gweithredu rheoliadau i drosi'r Cyfarwyddebau caffael yn gyfraith yng Nghymru yn rhoi digon o gyfle i gefnogi amcanion polisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad cryf i awdurdodau lleol ac awdurdodau contractio cyhoeddus eraill Cymru ar sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg a chreadigrwydd ym maes caffael cyhoeddus, yn arbennig yn nghyswllt caffael islaw trothwyon yr UE, i sicrhau fod amcanion polisi yn cael eu gwireddu. Fel un enghraifft, dylai'r arweiniad helpu i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i ddiogelu cyflogaeth. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 4.** Dylai adolygiad caffael Llywodraeth Cymru gloriannu pa mor effeithiol yw'r mesurau presennol i fynd i'r afael â'r bwlch o ran sgiliau caffael, meithrin gallu a rhannu'r arferion presennol gorau, a hynny'n cynnwys edrych ar y cymwysterau proffesiynol achrededig amrywiol sydd ar gael, ac i ba raddau y gall arbenigedd a mentora allanol helpu. (Tudalen 22)

**Argymhelliad 5.** Dylai'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i 'Sicrhau bod Polisi Caffael Llywodraeth Cymru yn cael yr Effaith Fwyaf Posibl' ymchwilio i sut mae codi proffil a statws arbenigedd caffael o fewn awdurdodau contractio sector cyhoeddus Cymru; integreiddio arbenigwyr caffael yn well mewn prosesau

cynllunio a phenderfynu strategol corfforaethol; a gwella dealltwriaeth uwch wneuthurwyr penderfyniadau o gaffael cyhoeddus fel arf i gyflawni'u dyletswydd sector cyhoeddus i hyrwyddo lles a thargedau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, ar y cyd â chasgliadau'r adolygiad y mae wedi'i gomisiynu i bolisi caffael, pa un y gellid addasu model polisi cynllunio Cymru ar gyfer caffael cyhoeddus, h.y. gosod datganiad neu strategaeth bolisi drosfwaol y mae gofyn i awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus ei dilyn, ac ychwanegu at hynny drwy gyfrwng nodiadau cyngor technegol a chylchlythyron canllawiau gweithdrefnol. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adolygiad o bolisi caffael fel cyfle i asesu a oes gan Gwerth Cymru y mandad, y trefniadau strwythurol a llywodraethol, a'r adnoddau angenrheidiol i yrru newid ar draws holl awdurdodau contractio sector cyhoeddus Cymru; ac i sicrhau fod mesurau gorfodi priodol yn cael eu cyflwyno i gyflymu newidiadau. (Tudalen 24)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector llywodraeth leol i roi blaenoriaeth i safoni'r rheolau caffael contract sefydlog ar gyfer awdurdodau lleol, a cheisio mwy o gysondeb mewn rheolau caffael, yn cynnwys rheolau ariannol, mewn rhannau eraill o sector cyhoeddus Cymru. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sefydlu system TG integredig i gynnal SQUiD a bwrw ymlaen yn gyflymach i roi rhaglen e-gaffael CyfnewidCymru ar waith ar draws Cymru. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau fod data dibynadwy ar gael i asesu faint o gwmnïau sy'n ennill contractau caffael cyhoeddus yng Nghymru sy'n fusnesau o Gymru a all ddod â manteision tymor hir i'r economi leol a'r farchnad swyddi, yn hytrach na chwmnïau y mae eu prif ganolfan y tu allan i Gymru, a chodi ymwybyddiaeth o'r mater hwn gydag awdurdodau contractio. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn ei hadolygiad o bolisi caffael cyhoeddus adolygiad o'r mesurau y mae'n eu cymryd i annog deialog cryf rhwng awdurdodau contractio cyhoeddus a busnesau yng Nghymru i wella dealltwriaeth o'r naill ochr a'r llall o sut

y gellir defnyddio caffael cyhoeddus fel cyfrwng i hybu economi Cymru. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad trylwyr o ganlyniadau ymarferiadau caffael cydweithiol yng Nghymru; dylai gymharu'r canlyniadau â modelau cydweithio a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU; a dylai gyfleu a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i fesurau i gynyddu ymwybyddiaeth o'i pholisi Manteision Cymunedol ymysg awdurdodau contractio sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal ag awdurdodau contractio a chontractwyr sy'n gweithredu mewn meysydd allweddol o wariant nad ydynt wedi cael eu datganoli yng Nghymru, yn cynnwys trafnidiaeth a seilwaith arall. (Tudalen 30)

# Cyflwyniad

1. Ar 22 Medi 2011 cytunodd y Pwyllgor Menter a Busnes i gynnal ymchwiliad byr drwy ofyn i grŵp rapporteur ymchwilio i'r drafodaeth gyfredol yn yr UE ynghylch moderneiddio polisi caffael cyhoeddus, a cheisio dylanwadu ar y drafodaeth honno. Daeth cam cyntaf yr ymgynghori cyhoeddus, er mwyn deall pryderon allweddol rhanddeiliaid yng Nghymru ynglŷn â'r rheoliadau caffael presennol, i ben ar 1 Tachwedd 2011. Mae cylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen i'w weld yn Atodiad A.

2. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion drafft am dair cyfarwyddeb newydd[1] yn ymdrin â chaffael ar 20 Rhagfyr 2011. Mae'r cynigion i foderneiddio fframwaith deddfwriaethol caffael cyhoeddus yn un o ddeuddeg cam gweithredu allweddol y rhoddir blaenoriaeth iddynt, a nodwyd yn Neddf y Farchnad Sengl a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2011,[2] i hybu twf a hyder ym Marchnad Sengl Ewrop. Canolbwyntiodd y grŵp gorchwyl a gorffen yn arbennig ar asesu i ba raddau yr oedd y cynnig am gyfarwyddeb ddrafft ar gaffael cyhoeddus (COM(2011)896) yn mynd i'r afael â'r pryderon yng Nghymru ynglŷn â chaffael cyhoeddus, gyda photensial i'r Pwyllgor fwydo barn pobl i Frwsel (ac i Lywodraethau Cymru a'r DU).

3. Cyfarwyddebau'r UE ar gaffael sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer caffael cyhoeddus ledled yr UE, a chânt eu gweithredu drwy reoliadau'r DU (Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006) sydd mewn grym yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwerth Cymru yw cangen gaffael Llywodraeth Cymru, yn cynorthwyo sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru gyda'u gweithgareddau caffael.

4. Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2012 cyfarfu'r grŵp yn anffurfiol yn breifat i drafod goblygiadau'r cynigion gyda Gweinidog Cyllid Cymru a swyddogion o Gwerth Cymru, swyddogion o Swyddfa Cabinet y DU, ac arbenigwyr caffael o Swyddfa Archwilio Cymru, llywodraeth leol Cymru, GIG Cymru, addysg uwch, y sector adeiladu a busnesau

---

[1] Cynnig am gyfarwyddeb yn ymdrin â chaffael gan gyrff sy'n gweithredu yn y sectorau dŵr, ynni, trafnidiaeth a gwasanaethau post, i ddisodli Cyfarwyddeb 2004/17 (COM(2011)895 terfynol); Cynnig am gyfarwyddeb yn ymdrin â chaffael cyhoeddus, i ddisodli Cyfarwyddeb 2004/18 (COM(2011) 896 terfynol); Cynnig am gyfarwyddeb yn ymdrin â Chonsesiynau (COM(2011) 897 terfynol).

[2] Deddf y Farchnad Sengl – Deuddeg ysgogiad i hybu twf a chryfhau hyder (COM(2011)206).

bach. Mae'r aelodau'n ddiolchgar hefyd am y dystiolaeth a gafwyd gan yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, a chan swyddogion o Gyngor Dinas Birmingham a Chyngor Dinas Coventry ynglŷn â'u dull nhw o ymdrin â sialensiau rheolau caffael yr UE.

5. Nododd y grŵp gorchwyl a gorffen bum maes y byddai'n canolbwyntio arnynt yn ei ymchwiliad: symleiddio'r gyfundrefn gaffael; mynediad i fusnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh) a mudiadau trydydd sector; modd i geisio cyflawni amcanion amgylcheddol a chymdeithasol; profiad awdurdodau contractio o sut mae caffael yn gweithio yng Nghymru; a'r cymorth a'r arweiniad sydd ar gael.

6. Nodwyd nifer o faterion sy'n benodol i gyfarwyddeb ddrafft yr UE ar gaffael cyhoeddus, a manylir ar y rhain yn rhan 1 o'r adroddiad hwn. Ond, yn dyngedfennol, datgelwyd materion o bwys yn ymwneud â'r sector caffael yng Nghymru ac arferion caffael yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Mae'r rhain, gan mwyaf, y tu allan i gwmpas unrhyw newidiadau i reolau caffael cyfredol yr UE, a manylir arnynt yn Rhan 2 o'r adroddiad.

## Rhan 1: Cynnig yr UE am gyfarwyddeb ddrafft yn ymdrin â chaffael cyhoeddus

7. Croesawir nod cyffredinol y cynigion, sef creu set symlach a mwy hyblyg o reolau caffael sydd wedi'u bwriadu i feithrin arloesi a thwf economaidd. Mae mesurau i wella mynediad i'r farchnad i fusnesau bach a chanolig eu maint (BBaCh) yn hanfodol i Gymru lle mae micro-fusnesau yn 94 y cant o'r sector busnes.

### Symleiddio

8. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi barn Llywodraeth Cymru fod rhai mesurau symleiddio arfaethedig i'w croesawu, yn cynnwys

- fod angen llai o ddogfennau yn ystod y cam dethol;
- cynyddu'r defnydd posibl o negodi yn ystod y weithdrefn gystadleuol, gyda negodi a chyhoeddi ymlaen llaw; a
- chefnogaeth i wneud mwy o ddefnydd o e-gaffael.

9. Fodd bynnag, mae'n bryderus y bydd mesurau eraill, yn arbennig y cynnig i newid y rheolau ynglŷn â gwasanaethau Rhan A a Rhan,[3] ac i sefydlu un corff trosolwg cenedlaethol ym mhob Aelod Wladwriaeth, yn mynd yn groes i'r ymdrech hon i symleiddio. Gallai amserlenni byrrach o ran mynegi diddordeb a dychwelyd tendrau hefyd roi cyflenwyr llai yng Nghymru o dan anfantais, yn enwedig y rheini sy'n ystyried cyflwyno cais fel consortiwm.

### Hyblygrwydd y Gweithdrefnau Caffael

10. Mae'r cynigion i ganiatáu mwy o ddeialog gyda chyflenwyr drwy'r weithdrefn 'partneriaeth arloesi' newydd, y broses gystadleuol gyda negodi, a symleiddio'r rheolau ynglŷn â deialog cystadleuol i gyd i'w croesawu. Fodd bynnag, mae pryderon difrifol ynglŷn ag Erthygl 24.1 arfaethedig – caniatáu i'r Aelod Wladwriaeth drosi Cyfarwyddebau yn rhannol yn unig. Pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â throsi'r holl weithdrefnau caffael posibl yn rheoliadau i'r DU, gallai hyn

[3] Dim ond gwasanaethau "Rhan A" neu wasanaethau "blaenoriaeth" sy'n cael eu cwmpasu'n llawn gan Reoliadau'r DU ar gaffael. Caiff gwasanaethau "Rhan B" neu wasanaethau "gweddilliol" eu cwmpasu gan gyfundrefn lai – yn gyffredinol ystyrir nad yw'r gwasanaethau hyn ond o ddiddordeb gan mwyaf i ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli yn yr Aelod Wladwriaeth lle bydd y contract yn cael ei gyflawni. Ar hyn o bryd mae hynny'n cynnwys iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol; gwasanaethau addysg; gwasanaethau hamdden, adloniant a chwaraeon; gwasanaethau gwestyau a thai bwyta; a gwasanaethau cyfreithiol.

leihau'r posibiliadau i arloesi ac i sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol drwy negodi a thrwy well deialog â chyflenwyr.

11. Mae'r grŵp eisoes wedi cyfeirio'r mater hwn at Lywodraeth Cymru ac at bwyllgorau Seneddol y DU sy'n craffu ar y cynigion Ewroepaidd hyn, er mwyn iddynt gael eu hystyried yn ystod y trafodaethau a'r craffu seneddol. Mae Gweinidog Cymru hithau wedi codi'r mater gyda Llywodraeth y DU. Hysbyswyd ASEau Cymru hefyd.

## Corff Trosolwg Cenedlaethol

12. Yn yr un modd mae'r Cynulliad wedi codi pryderon ynglŷn â'r cynnig yn Erthygl 84 am un 'corff trosolwg cenedlaethol' i'r Aelod Wladwriaeth. Ystyrir y gallai hyn dorri egwyddorion sybsidiaredd a chymesuredd, ac nid yw'n cydnabod datganoli. Roedd Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad hefyd yn cytuno â barn Llywodraeth y DU fod y cynnig yn groes i sybsidiaredd, ac mae safbwyntiau Cymru wedi cael eu cynnwys mewn Barn Resymedig a gyflwynwyd i'r sefydliadau Ewropeaidd gan senedd genedlaethol y DU – Tŷ'r Cyffredin – ar 7 Mawrth. Dyma'r tro cyntaf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru godi pryder ynglŷn â sybsidiaredd o dan y 'mecanwaith rhybudd cynnar' a gyflwynwyd gan Gytuniad Lisbon. Mae'r ohebiaeth berthnasol yn Atodiad B.

13. Er bod cynrychiolwyr o'r sector adeiladu yng Nghymru wedi tynnu sylw at yr angen am well monitro, ac am gymhwyso'r rheolau caffael yn gyson ac yn briodol, nid oes digon o fanylder yn y cynigion i asesu manteision positif o'r cynigion fel y cawsant eu drafftio, a dywedodd y rhan fwyaf o randdeiliaid Cymru wrth y grŵp eu bod yn amheus iawn o'r potensial i greu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth.

14. Codwyd un mater gan awdurdodau contractio, sef y gallai'r corff rheoleiddio newydd arafu'r broses gaffael, tra byddid yn disgwyl i sialensiau i ymarferiadau caffael unigol gael eu datrys – mater o bwys tyngedfennol lle mae, er enghraifft, eitemau clinigol yn cael eu prynu. Fel y mae'r cynigion yn sefyll, awgrymir fod y baich biwrocrataidd ychwanegol yn fwy nag agweddau cadarnhaol y corff arfaethedig, megis bod yn ffynhonnell cyngor, datrys anghydfodau a lledaenu arferion da.

**Trothwyon**

15. Er gwaethaf cefnogaeth weddol eang i godi'r trothwyon cyfredol lle daw rheoliadau caffael yr UE i rym, yng nghynigion y Comisiwn awgrymir cadw'r un trothwyon. Cyfyngir ar y gallu i godi'r trothwyon hyn gan eu bod yn cyd-fynd â'r trothwyon sydd wedi'u nodi yn y Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraeth sy'n cael ei negodi drwy Sefydliad Masnach y Byd. Mae i'w groesawu felly fod darpariaeth wedi cael ei gwneud yn y cynigion drafft i adolygu trothwyon yr UE yn y dyfodol, bob dwy flynedd o 2014.

16. Roedd peth tystiolaeth o'r sector awdurdodau lleol y gallai mwy o undod rhwng y gwahanol drothwyon i nwyddau a gwasanaethau, ac i waith, fod yn fuddiol. Nodwyd fod tipyn o gontractau am waith adnewyddu sy'n cael eu gosod yng Nghymru islaw'r trothwy cyfredol i waith. Pwysleisiwyd serch hynny, pe bai'r trothwyon yn cael eu codi, y byddai'n dal yn ofynnol hysbysebu contractau islaw'r trothwy, gan fod llawer o fusnesau yng Nghymru yn dymuno gwneud cais amdanynt.

**Rhoi'r gorau i wahaniaethu rhwng Gwasanaethau Rhan A a Rhan B**

17. Cododd y grŵp bryderon ynglŷn â'r cynnig i ddileu gwasanaethau Rhan B a chyflwyno cyfundrefn newydd ar gyfer 'gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill' (Erthygl 74), yn cynnwys gwasanaethau gofal personol.

18. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar y pwynt hwn wedi bod yn amwys, gyda nifer o dystion o awdurdodau contractio yn dweud mai eu harfer nhw oedd mynd drwy'r gyfundrefn gaffael lawn wrth gaffael unrhyw wasanaethau, pa un a oedd y gwasanaethau yn disgyn i Ran A neu Ran B. Nid yw hyn yn arfer da – mae cymhwyso'r ystod lawn o reolau caffael i gontractau heb reswm da yn rhwystr arwyddocaol i BBaCh a micro-fusnesau sy'n ceisio cael mynediad i'r farchnad. Ymdrinnir yn fanylach yn rhan 2 o'r adroddiad hwn â'r pryder fod arbenigwyr caffael yn rhy gyndyn i gymryd risg wrth gymhwyso'r rheolau cyfredol.

19. Mae rhoi'r gorau i wahaniaethu rhwng gwasanaethau Rhan A a Rhan B hefyd yn codi problem neilltuol cylcholdeb wrth geisio cyngor cyfreithiol ym maes caffael. Yn sgil rhoi'r gorau i wahaniaethu, bydd yr ystod o wasanaethau y cymhwysir y gyfarwyddeb yn llawn iddynt yn cynyddu, a bydd hynny'n cynnwys gwasanaethau fel cyngor cyfreithiol, nad oeddent yn cael eu cynnwys gynt. Felly, os oes angen cyngor

cyfreithiol ynglŷn â chaffael, er enghraifft, mae'n ymddangos y bydd rhaid ei gaffael yn unol â phwysau llawn y gyfundrefn gaffael, a heb yr union gyngor y mae'r awdurdod yn ceisio'i gael. Mae'n ymddangos fod hon yn broblem newydd, a gyflwynir yn sgil rhoi'r gorau i wahaniaethu rhwng gwasanaethau Rhan A a Rhan B.

**Lotiau**

20. Croesawir y cynigion i annog awdurdodau contractio i rannu contractau yn lotiau llai, a'i gwneud yn bosibl cyfyngu ar y nifer o lotiau y ceir eu dyfarnu i un tendrwr, sy'n cynyddu'r potensial i BBaCh gymryd rhan. Fodd bynnag, seiniwyd nodyn o rybudd gan rai tystion, gan ddweud y gallai'r rhwymedigaeth ar awdurdodau contractio i ddarparu rheswm pam nad ydynt wedi rhannu contract yn lotiau o bosib greu maes newydd o herio cyfreithiol.

**Cyflawni amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol**

21. Yn gyffredinol, roedd y tystion yn croesawu'r eglurhad yn dweud i ba raddau y gellid cyflawni amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol drwy ddefnyddio caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, awgrymodd tystion eu bod yn ei chael hi'n anodd gwerthuso i ba raddau yr oedd y Cyfarwyddebau Drafft yn welliant ar y cyfarwyddebau cyfredol yn y cyswllt hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi fod Llywodraeth Cymru yn ceisio barn gyfreithiol ynglŷn ag i ba raddau y mae'r cynigion yn cefnogi amcanion polisi economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, yn cynnwys polisi Manteision Cymunedol Llywodraeth Cymru.

***Contractau neilltuedig***

22. Croesawir ymestyn contractau neilltuedig i gynnwys pobl dan anfantais, nid dim ond y rhai sydd ag anabledd. Dywedwyd wrth yr aelodau mai Llywodraeth Cymru oedd y gyntaf yn y DU i ddefnyddio'r ddarpariaeth o dan Erthygl 19 o'r Cyfarwyddebau caffael cyfredol i neilltuo contractau i fusnesau a gynorthwyir, a chanfu arolwg gan Gwerth Cymru 21 o fusnesau a gynorthwyir yn cynnig gwasanaethau a oedd wedi cael eu caffael gan y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd penderfyniad Llywodraeth y DU ar 7 Mawrth i ddileu'r arian grant i Remploy, a'r bwriad wedyn i gau saith o'r naw busnes Remploy yng Nghymru, yn lleihau'r posibiliadau i'r sector cyhoeddus 'neilltuo' contractau yn sylweddol, gan adael dim ond deuddeg busnes arall a gynorthwyir yn gweithredu yng Nghymru.

*Datblygu Cynaliadwy*

23. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y Cyfarwyddebau newydd yn arwain at set ysgafnach a mwy hyblyg o reoliadau caffael, sy'n cefnogi amcanion datblygu cynaliadwy. Clywodd yr aelodau rai enghreifftiau da o fesurau datblygu cynaliadwy yn cael eu hymgorffori mewn gwaith cynllunio caffael yng Nghymru, ac archwiliwyd y posibilrwydd y gallai'r rheoliadau newydd roi mwy o hyblygrwydd i ganiatáu cynnwys cymalau 'ôl troed carbon' ym meini prawf gwerthuso contractau.

**Angen eglurhad**

24. Mae'r diffyg eglurder ynglŷn â goblygiadau'r cynigion i ganiatáu cyflawni amcanion polisi amgylcheddol a chymdeithasol hefyd i'w weld yng nghyswllt elfennau pwysig eraill o'r cynigion fel y maent wedi'u drafftio ar hyn o bryd. Er enghraifft, elfennau megis beth mae'r gweithdrefnau caffael newydd yn ei gynnig, a'r trefniadau llywodraethu arfaethedig. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y daw'r cynigion yn gliriach wrth negodi ac y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod yn gyson iddo am ddatblygiadau o bwys wrth i'r trafodaethau hyn barhau drwy gydol 2012.

**Y Gyfarwyddeb Unioni Cam**

25. Cafodd y Gyfarwyddeb Unioni Cam ei nodi fel problem fawr i'r sector caffael gan nifer o randdeiliaid. Mae'n ymddangos fod y nifer o heriau cyfreithiol o dan y Gyfarwyddeb Unioni Cam yn llawer llai yng Nghymru nag yng Ngogledd Iwerddon hyd yma, a dangosodd GIG Cymru fod agwedd awdurdodau contractio yn delio'n gadarn â heriau cyfreithiol yn bwysig, h.y. herio'n ôl yn hytrach na gwrth-ddweud yr honiad, a dim ond mynd drwy'r gweithdrefnau hyd at y pwynt lle gwnaed her. Nodwyd y gallai fod goblygiadau diogelwch clinigol i oedi o ran caffael yn y sector iechyd.

26. Nododd swyddogion caffael llywodraeth leol fod ofni her o dan y Gyfarwyddeb Unioni Cam wedi bod yn rhwystr rhag hybu arferion caffael arloesol, er bod pobl yn aml yn disgwyl llawer mwy o heriad nag a geir mewn gwirionedd. Mae hyn yn broblem neilltuol lle mae'r personél caffael wedi'u lleoli ymhell i lawr y gadwyn reoli o fewn yr awdurdod contractio.

27. Gall y Gyfarwyddeb Unioni Cam weithredu fel rhwystr rhag effeithlonrwydd ac arloesedd, ac mae'r Pwyllgor felly yn annog y

Comisiwn Ewropeaidd i werthuso'i heffaith ar draws Aelod Wladwriaethau a rhanbarthau'r UE, i gymryd camau cyflym a phriodol ar sail y casgliadau, ac i ystyried y Gyfarwyddeb Unioni Cam ochr yn ochr â'r Cyfarwyddebau Caffael Drafft.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i werthuso effaith y Gyfarwyddeb Unioni Cam ar draws Aelod Wladwriaethau a rhanbarthau'r UE a chymryd camau cyflym a phriodol ar sail y casgliadau; ac ystyried sut mae'r Gyfarwyddeb Unioni Cam yn rhyngweithio â darpariaethau'r Cyfarwyddebau Caffael Drafft.**

## Trosi'r Cyfarwyddebau

28. Mae Cyfarwyddebau Caffael cyfredol yr UE yn cael ei trosi'n ddeddfwriaeth yn y DU gan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, sydd mewn grym yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae adroddiad diweddar ar y sector caffael yn yr Alban[4] yn dadlau fod rheoliadau'r Alban, sydd ym mhob ffordd bron yn union yr un fath â'r rheoliadau sydd ar waith yn rhannau eraill y DU, yn rhwystr rhag gweithredu'n flaengar ym maes caffael. Dywed yr adroddiad i'r rheoliadau gael eu drafftio ar lefel y DU gan ganolbwyntio ar leihau'r baich busnes, yn hytrach nag ar gyflawni amcanion polisi cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ehangach.

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd gweithredu rheoliadau i drosi'r Cyfarwyddebau caffael yn gyfraith yng Nghymru yn rhoi digon o gyfle i gefnogi amcanion polisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru.**

[4] Cuthbert, Jim a Margaret (2012), Sefydliad Jimmy Reid, Using Our Buying Power to Benefit Scotland – the case for change.

## Rhan 2: Sector Caffael Cymru

29. Un neges glir o'r ymchwiliad yw nad y rheolau caffael cyfredol yw'r wir broblem ar hyn o bryd, er gwaethaf yr ymdrechion i'w symleiddio a'u gwneud yn fwy hyblyg. Mae'n bosibl gweithredu polisi caffael blaengar ac arloesol o fewn y gyfundrefn gaffael gyfredol – y broblem mewn gwirionedd yw sut mae'r rheolau'n cael eu dehongli a'u cymhwyso.

**Rheoli Risg**

30. Edrychodd y grŵp yn fanwl ar yr argraff a nodwyd gan rai rhanddeiliaid fod y sector caffael yn y DU yn fwy cyndyn i gymryd risg nag mewn Aelod Wladwriaethau eraill. Ymddengys fod peth tystiolaeth fod y DU, a Chymru yn arbennig, yn fwy cyndyn i gymryd risg yn y ffordd y mae'n cymhwyso'r rheolau.

31. Nododd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd sawl rheswm pam fod mwy o amharodrwydd i gymryd risg ar lefel y DU. Tynnodd sylw at ddiwylliant 'gwerth am arian' sydd wedi gwreiddio'n ddwfn yn Nhrysorlys E.M., a bod hynny'n cael ei ddiffinio mewn termau economaidd cul. Nododd hefyd fod cymuned fusnes y DU yn fwy parod yn ôl pob golwg i fynd i gyfraith na rhai o wledydd y cyfandir, a chanlyniad anfwriadol y Gyfarwyddeb Unioni Cam hefyd fu dwysáu'r diwylliant osgoi risg.

32. Mae'r diwylliant hwn hyn yn oed yn amlycach yng Nghymru oherwydd problemau sylfaenol yn ymwneud â chapasiti, creadigrwydd a chymhwysedd. Dywedodd yr Athro Morgan:

> "People are creative when they feel that their skills are valued, when there is talent there to be encouraged and to explore. Trial and error is part of creativity. Creativity is linked to competence, and this is the fundamental problem in Wales. Our competence is more challenged in Wales because our skills deficit is more pronounced."

33. Dywedodd yr Athro Morgan fod y rheoliadau caffael yn galluogi i'r un graddau ag y maent yn cyfyngu ac nad ydynt ond yn broblem i'r graddau y gallent gael eu gweld fel rhwystr. Iddo ef roedd y canfyddiad hwn yn broblem fawr ymysg gweision cyhoeddus yng Nghymru, gyda chyfrif costau cul a dehongliad cyndyn i gymryd risg

o'r rheolau caffael yn cael eu harddel wrth iddynt weithio gyda mentrau cymdeithasol. Gellid rhoi rhagor o bwysau ar weision sifil a chyrff cyhoeddus yng Nghymru i fod yn fwy creadigol a llai cyndyn i gymryd risg. Mae'n amlwg fod agweddau a'r ffordd o ymdrin â rheoli risg yn amrywio ar draws awdurdodau lleol Cymru.

34. Roedd yr aelodau'n awyddus i edrych yn fanwl ar y dull arloesol o brynu gwasanaethau i bobl ddigartref sydd wedi cael ei fabwysiadu gan Gyngor Dinas Coventry. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo treial 18 mis yn comisiynu gwasanaethau i gael eu darparu'n gost effeithiol drwy gonsortiwm (a ariannir â grant) o ddarparwyr gwasanaeth trydydd sector lleol o'r enw 'Here to Help'. Cwmni cyfyngedig drwy warant yw'r consortiwm, ac mae'n galluogi mudiadau sector gwirfoddol lleol, yn cynnwys rhai asiantaethau llai, i weithio gyda'i gilydd i gystadlu'n fwy effeithiol yn erbyn sefydliadau masnachol cenedlaethol, mawr, gan helpu drwy hynny i gadw sylfaen gref o ddarparwyr lleol yn y ddinas. Gall y mudiadau yn y consortiwm weithio gyda'i gilydd un ai i ddarparu gwasanaethau a ariannir â grant neu fel cwmni mewn ymarferiadau caffael ffurfiol. Mae'r drefn hon yn ystyried gofynion rheolau caffael yr UE, ac fe'i hysbysebwyd drwy hysbysiad gwirfoddol yng nghyfnodolyn swyddogol yr UE (OJEU). Cafodd y risgiau a'r cyfleoedd eu hystyried yng nghyd-destun pwerau lles y Cyngor a'r ddyletswydd arno i ystyried gwerth cymdeithasol ei gontractau. Mae'r gwleidyddion a'r swyddogion, o'r prif weithredwr i'r gwasanaethau cyllid a chyfreithiol a'r maes gwasanaeth, yn llwyr gefnogi'r dull hwn o gomisiynu.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad cryf i awdurdodau lleol ac awdurdodau contractio cyhoeddus eraill Cymru ar sicrhau'r cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg a chreadigrwydd ym maes caffael cyhoeddus, yn arbennig yn nghyswllt caffael islaw trothwyon yr UE, i sicrhau fod amcanion polisi yn cael eu gwireddu. Fel un enghraifft, dylai'r arweiniad helpu i wneud yn fawr o'r cyfleoedd i ddiogelu cyflogaeth.**

### Gyrru Creadigrwydd

35. Mae'r Athro Morgan yn arbenigo ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus – maes lle mae'n gyfreithiol bosibl cynnwys cymalau cymdeithasol mewn contractau i greu amodau sy'n fwy tebygol o ffafrio caffael oddi wrth gyflenwyr lleol. Mae hyn yn rhywbeth sy'n gweithio'n effeithiol iawn yn yr Eidal, lle mae'r awdurdodau contractio yn gweithio o fewn y rheolau, ond eu man cychwyn yw sicrhau amryw

o "*werthoedd*" cymdeithasol am arian yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiffiniad cul o 'werth am arian' sydd wedi'i seilio'n llwyr ar gost economaidd.

**Pan fyddwch yn Rhufain** …

Caiff ffordd greadigol o ymdrin â chaffael prydau ysgol ei disgrifio yn 'The School Food Revolution: Public Food and the Challenge of Sustainable Development' gan yr Athro Kevin Morgan a Dr Roberta Sonnino.[5] Mae awdurdodau cyhoeddus yr Eidal wedi defnyddio'r gwasanaeth prydau ysgol fel arf i atgyfnerthu arferion bwyta iach, ac yn Rhufain dyluniwyd system sydd â'r potensial i wireddu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangaf datblygu cynaliadwy.

Roedd y system yn un soffistigedig, yn rhoi pwys mawr ar gydweithfeydd a mentrau cymdeithasol, ac ar fwyd organig. Er bod rhagnodi bwyd lleol mewn contract yn anghyfreithlon, mae'n bosibl rhagnodi ansawdd bwyd, er enghraifft bwyd organig, enw tarddiad gwarchodedig, pa mor ffres yw bwyd a faint o amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd y farchnad, ac mae hynny'n rhoi neges glir fod cyrff cyhoeddus am gael cyflenwyr bwyd lleol. Mae'n ffordd greadigol o roi gwerthoedd cymdeithasol ar waith yn y broses gaffael.

36. Clywodd yr aelodau rai enghreifftiau o waith creadigol da, a ffyrdd rhagweithiol o ymdrin â chaffael cyhoeddus, megis gwaith Prifysgol Fetropolitan Caerdydd ar gaffael bwyd i'r sector addysg uwch, ond nid yw'r enghreifftiau hyn yn gyffredin ar draws holl awdurdodau contractio'r sector cyhoedd yng Nghymru.

**Mynd i'r Afael â'r Bwlch Sgiliau**

37. Nodwyd fod diffyg sgiliau sylweddol yn y sector caffael yng Nghymru. Nid oes digon o swyddogion â'r cymwysterau priodol. Yn ôl yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, dywed y meincnod cydnabyddedig, 'meincnod McClelland',[6] y dylai fod un gweithiwr caffael proffesiynol medrus am bob £15m o wariant. Yn ôl data diweddar mae gan Gymru 106 o swyddogion caffael â chymhwystser y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (CIPS) – y corff proffesiynol i

[5] Morgan, Kevin a Sonnino, Roberta (2008), The School Food Revolution: Public Food and the Challenge of Sustainable Development.

[6] Review of Procurement in Scotland – Report and recommendations, gan John. F. McClelland CBE. Cyhoeddiad Llywodraeth yr Alban, Mawrth 2006; ISBN 0 7559 4999 4

arbenigwyr caffael sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol. O gymhwyso meincnod McClelland, dylai fod gan Gymru 174 o weithwyr proffesiynol medrus. Mae amrywiadau sylweddol yn yr arbenigedd caffael sydd ar gael mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru – mae gan un sefydliad dîm o wyth o staff caffael pwrpasol, tra nad oes gan bedwar sefydliad unrhyw swyddogion o'r fath o gwbl ac yn lle hynny maent yn rhannu trefniadau gwasanaeth gyda sefydliadau lleol eraill.

38. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau ar draws y sector cyhoeddus, er enghraifft drwy brosiect 'Defnyddio Doniau Cymru', sy'n cael ei gyllido drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn ardal Gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Fodd bynnag, nid yw'r rhanbarth cyllido Cydgyfeirio yn cwmpasu holl awdurdodau lleol Cymru, ac er bod rhannu'r arferion gorau yn gallu helpu i wasgaru'r budd, mae'r dystiolaeth drwyddi draw yn dangos fod dirfawr angen sicrhau cysondeb ar hyd a lled Cymru.

39. Mae'r Pwyllgor hefyd yn seinio nodyn o rybudd o ran canolbwyntio ar ddim ond cymwysterau sydd ag achrediad CIPS. Mewn rhai meysydd o wariant sylweddol, megis adeiladu a gofal cymdeithasol, mae'n nodi fod y caffael yn cael ei wneud gan bobl heb gymwysterau CIPS. Mae angen ystyried llwybrau addysgol a dulliau hyfforddi eraill, a chynnwys hyfforddiant ar faterion caffael mewn datblygiad proffesiynol ym mhob sector er mwyn meithrin gallu.

40. Ni fydd cynyddu'r nifer o weithwyr proffesiynol cymwysedig yn ddigon i gynhyrchu'r creadigrwydd a'r arbenigedd y mae eu hangen yn y sector. Mae angen hefyd rhannu arferion da yn well ymysg gweithwyr proffesiynol yn ddiwahân. Clywodd y grŵp enghreifftiau o broblemau gyda chontractau a oedd yn deillio o gymhwyso'r rheolau cyfredol yn anghywir, nid o'r rheolau eu hunain.

41. Bydd y ffyrdd o ymdrin â chaffael yn amrywio yn ôl y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith sy'n ofynnol, a phwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cynllunio digonol a meddu ar strategaeth gaffael briodol ym mhob achos – mae'r rheoliadau wedyn yn ffitio o fewn hynny yn ôl yr angen. Mae llunio manyleb anghywir yn gallu clymu dwylo awdurdodau contractio a/neu arwain at her gyfreithiol yn ddiweddarach yn y broses, ond nodwyd mai cynllunio strategol yw'r allwedd i atal y problemau hyn rhag codi.

42. Yn amlwg, mae angen mwy o arweiniad i sicrhau fod awdurdodau contractio yn gweithredu bob amser fel ‘client deallus’, a rhaid creu mwy o gyfleoedd i ddod ag arbenigwyr caffael ynghyd, a chwistrellu manteision arbenigedd allanol i mewn i’r sector, er mwyn cryfhau’r sylfaen gwybodaeth.

**Argymhelliad 4: Dylai adolygiad caffael Llywodraeth Cymru gloriannu pa mor effeithiol yw’r mesurau presennol i fynd i’r afael â’r bwlch o ran sgiliau caffael, meithrin gallu a rhannu’r arferion presennol gorau, a hynny’n cynnwys edrych ar y cymwysterau proffesiynol achrededig amrywiol sydd ar gael, ac i ba raddau y gall arbenigedd a mentora allanol helpu.**

### Statws Caffael

43. Nid yw statws caffael o fewn awdurdodau caffael sector cyhoeddus yn ddigon uchel ac, er gwaethaf y ffocws ar werth am arian, mae’n amheus a yw cyrff cyhoeddus yn gwybod digon am eu harferion caffael mewnol eu hunain. Mae caffael cyhoeddus yn sbardun allweddol i dwf economaidd ond nid oes cydnabyddiaeth ddigonol i’w bwysigrwydd ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae angen codi proffil caffael a rhaid ei symud o fod yn swyddogaeth ystafell gefn i swyddogaeth ystafell y bwrdd. O fewn awdurdodau contractio sector cyhoeddus, mae’r berthynas rhwng gweithwyr caffael proffesiynol, cynghorwyr cyfreithiol, cynghorwyr ariannol a deiliaid cyllideb, a rôl pob un ohonynt mewn penderfyniadau, yn dyngedfennol. Gall cyngor cyfreithiol un ai gefnogi dulliau caffael creadigol o fewn y rheolau neu arwain at weithredu gorofalus, yn cael ei yrru gan yr ofn yr aiff rhywun i gyfraith. Bydd gwella statws gweithwyr caffael proffesiynol yn help i fwrw’r fantol unwaith eto o blaid ymdrin yn fwy strategol a chreadigol â phenderfyniadau prynu. Bydd cynyddu sgiliau a gallu gweithwyr caffael proffesiynol hefyd yn help iddynt ennyn parch a mwy o ddylanwad o fewn eu sefydliadau unigol.

### Arweinyddiaeth Strategol

44. Mae angen mwy o arweinyddiaeth strategol gan lywodraeth ac o fewn awdurdodau contractio a chyrff cynorthwyo i hyrwyddo dulliau caffael creadigol a’r arferion gorau, ac i ymgorffori caffael mewn amcanion strategol ehangach er mwyn ysgogi’r economi leol, creu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth, a chynhyrchu manteision cymunedol tymor hir eraill. Cydnabu Gwerth Cymru fod enghreifftiau o arferion caffael da yn golygu nid yn unig fod y tîm caffael yn gwthio’r

polisi, ond fod y tîm cyfreithiol, y rheolwr prosiect a'r deiliad cyllideb hefyd yn deall yr amcanion polisi.

**Caffael Twf Economaidd**

Mae Cyngor Dinas Birmingham, fel rhan o grŵp o awdurdodau a phartneriaid ar Banel Cynhwysiant Economaidd Gorllewin Canolbarth Lloegr, wedi canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud ar y cyd drwy ddylanwad caffael i gefnogi twf yn yr economi leol, a datblygu cadwyni cyflenwi lleol o fewn terfynau cyfraith gaffael yr UE. Gweithredodd ar ffurf 'pecyn cymorth', a chydag arbenigedd cyfreithiol datblygodd fframwaith sy'n gyfrwng i ddechrau cyflyru i ba raddau y mae'r bobl sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau yn gwneud hynny drwy'r economi leol. Mae dros £5 biliwn o wariant wedi mynd drwy'r fframwaith yn barod. Datblygwyd 'e-Bay i fusnesau' o'r enw FindItInBirmingham.com, i helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol a chreu amgylchedd sy'n cefnogi BBaCh, y bydd cwmnïau mawr yn manteisio arnynt. Mae £3.7 biliwn o gytundebau sector preifat wedi mynd drwy'r porth ar-lein ac mae 10,000 o gwmnïau wedi cofrestru. Elfen drawiadol o drefn gydweithredol Gorllewin Canolbarth Lloegr yw mai arweinyddiaeth ranbarthol sy'n gyrru'r fenter, gan sefydlu pwrpas cyffredin a rennir, sef hybu cyflogaeth a thwf economaidd ledled y rhanbarth.

45. Mae angen mwy o gydnabyddiaeth o rôl Llywodraeth Cymru yn gosod polisi trosfwaol i gaffael cyhoeddus yng Nghymru, y mae gofyn i awdurdodau contractio ar draws y sector cyhoeddus ei fabwysiadu ac ymateb yn gyflym iddo. Gallai ymdrin â pholisi caffael mewn modd tebyg i'r ffordd yr ymdrinnir â pholisi cynllunio, gyda'r gofyniad i weithredu ar nodiadau cyngor technegol, arwain at y math o newid sylfaenol mewn diwylliant ac ymddygiad sy'n ofynnol ym mhob awdurdod contractio sector cyhoeddus. Dylid hefyd ystyried annog awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus i feddu ar strategaeth gaffael lefel uchel er mwyn gweithredu amcanion polisi caffael Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5: Dylai'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i 'Sicrhau bod Polisi Caffael Llywodraeth Cymru yn cael yr Effaith Fwyaf Posibl' ymchwilio i sut mae codi proffil a statws arbenigedd caffael o fewn awdurdodau contractio sector cyhoeddus Cymru; integreiddio arbenigwyr caffael yn well mewn prosesau cynllunio a phenderfynu strategol corfforaethol; a gwella dealltwriaeth uwch wneuthurwyr penderfyniadau o gaffael**

**cyhoeddus fel arf i gyflawni'u dyletswydd sector cyhoeddus i hyrwyddo lles a thargedau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy.**

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried, ar y cyd â chasgliadau'r adolygiad y mae wedi'i gomisiynu i bolisi caffael, pa un y gellid addasu model polisi cynllunio Cymru ar gyfer caffael cyhoeddus, h.y. gosod datganiad neu strategaeth bolisi drosfwaol y mae gofyn i awdurdodau contractio'r sector cyhoeddus ei dilyn, ac ychwanegu at hynny drwy gyfrwng nodiadau cyngor technegol a chylchlythyron canllawiau gweithdrefnol.**

46. Yn ystod yr ymchwiliad daeth yn hysbys nad yw gweithgaredd caffael corff treftadaeth Cymru, CADW, yn dod o fewn cwmpas cangen gaffael Llywodraeth Cymru, Gwerth Cymru. Cred y Pwyllgor fod yr anghysondeb hwn wedi cael ei gywiro, ond cododd gwestiwn pwysig pa un a oedd gan Gwerth Cymru fandad digon cryf i yrru polisi ac ymarfer caffael blaengar ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o bolisi caffael cyhoeddus yng Nghymru yn gyfle amserol i asesu a oes gan Gwerth Cymru y mandad, y trefniadau strwythurol a llywodraethol a'r adnoddau y mae eu hangen arno i'r gwaith. Yn ei dystiolaeth roedd yn amlwg fod Gwerth Cymru yn teimlo nad yw'r modd ganddo i orfodi arferion da. Hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru ystyried pa fesurau gorfodi, megis amodau grant, y gellir eu sefydlu i ddelio â sefyllfa lle mae tystiolaeth nad yw awdurdod contractio yn dilyn arferion da.

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r adolygiad o bolisi caffael fel cyfle i asesu a oes gan Gwerth Cymru y mandad, y trefniadau strwythurol a llywodraethol, a'r adnoddau angenrheidiol i yrru newid ar draws holl awdurdodau contractio sector cyhoeddus Cymru; ac i sicrhau fod mesurau gorfodi priodol yn cael eu cyflwyno i gyflymu newidiadau.**

## Arferion da cyson

47. Nid oes digon o gysondeb arferion ar draws y sector caffael yng Nghymru – daeth y neges hon drwodd yn gryf oddi wrth randdeiliaid, yn arbennig gweithredwyr economaidd. Nododd cynrychiolwyr busnes ddryswch lle'r oedd gwahanol awdurdodau contractio yng Nghymru yn rhoi gofynion gwahanol ar y rhai sy'n ymgeisio am gontractau. Nodwyd y gwahaniaethau hyn fel rhwystr i BBaCh rhag mentro i faes caffael cyhoeddus.

48. Mae rhai arferion da iawn yng Nghymru – enwyd prosiect ffordd osgoi Pentre'r Eglwys gan sawl rhanddeiliaid fel enghraifft o fri o sicrhau manteision cymunedol tymor hir. Fodd bynnag, nid yw'r arferion gorau yn cael eu rhannu'n ddigon eang i wella'r holl awdurdodau contractio hyd at safon y goreuon. Nododd swyddogion caffael llywodraeth leol waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd i ddod â mwy o gysondeb i weithdrefnau caffael rhwng awdurdodau lleol drwy safoni'r rheolau caffael contract sefydlog, sy'n cynnwys y rheolau a'r rheoliadau ariannol. Nododd y Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch fod gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru eu gweithdrefnau caffael penodol eu hunain o fewn fframwaith cyfraith gaffael yr UE.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector llywodraeth leol i roi blaenoriaeth i safoni'r rheolau caffael contract sefydlog ar gyfer awdurdodau lleol, a cheisio mwy o gysondeb mewn rheolau caffael, yn cynnwys rheolau ariannol, mewn rhannau eraill o sector cyhoeddus Cymru.**

49. Rhaid gwneud mwy i sicrhau fod arferion da yn cael eu rhannu ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol a rhwng awdurdodau contractio ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, yn cynnwys drwy gefnogaeth gan gymheiriaid a mentora. Mae hwn yn faes arall lle mae arweinyddiaeth strategol gref gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dyngedfennol.

50. Dylai cymhorthion caffael buddiol, fel Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr 'SQUiD' a gyflwynwyd gan Gwerth Cymru i symleiddio'r broses gyn-gymhwyso i ymgeiswyr, gael eu defnyddio gan bob awdurdod contractio. Roedd cynrychiolwyr busnes yn croesawu cyflwyno SQUiD, ond dywedasant y dylai gael ei ddefnyddio'n gyson er mwyn cael y budd mwyaf posibl ohono. Mae pecyn cymorth I2I 'Gallu Gwneud' ar gyfer recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu yn y sector tai yn enghraifft dda arall. Mae'n bwysig sicrhau defnydd cyson o gymhorthion caffael sydd wedi'u cymeradwyo ar draws y sector cyhoeddus.

51. Mae e-gaffael yn gyffredinol o fudd i awdurdodau contractio a gweithredwyr economaidd, ond mae angen ei ddefnyddio mewn ffordd gyson a chydgysylltiedig rhwng awdurdodau contractio. Y farn o lywodraeth leol oedd fod Cymru wedi bod yn symud yn gynt na rhanbarthau Ewropeaidd eraill yn ei defnydd o e-gaffael, ond fod

angen ymrwymiad llwyr y gymuned fusnes er mwyn i'r fenter fod yn llwyddiannus.

**Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i sefydlu system TG integredig i gynnal SQUiD a bwrw ymlaen yn gyflymach i roi rhaglen e-gaffael CyfnewidCymru ar waith ar draws Cymru.**

**Gwella mynediad i BBaCh**

52. I asesu i ba raddau y mae cwmnïau o Gymru yn ennill contractau caffael cyhoeddus yng Nghymru, mae'n bwysig bod â data dibynadwy ar faint o fusnesau 'Cymreig' sy'n fusnesau â swyddfa loeren yng Nghymru, ond cyfeiriad anfonebu sy'n dangos eu bod yn gweithredu'n bennaf y tu allan i Gymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi i'r Gweinidog Cyllid ymrwymo yn y cyfarfod llawn ar 21 Chwefror i ymchwilio i'r mater hwn.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau fod data dibynadwy ar gael i asesu faint o gwmnïau sy'n ennill contractau caffael cyhoeddus yng Nghymru sy'n fusnesau o Gymru a all ddod â manteision tymor hir i'r economi leol a'r farchnad swyddi, yn hytrach na chwmnïau y mae eu prif ganolfan y tu allan i Gymru, a chodi ymwybyddiaeth o'r mater hwn gydag awdurdodau contractio.**

***Deialog cyn-caffael gyda'r sector busnes***

53. Bydd mesurau i annog deialog cyn-caffael gyda gweithredwyr economaidd yn help hefyd i awdurdodau contractio adnabod eu marchnad yn well a lleihau'r risg o rwystro cwmnïau llai, sydd â'r potensial i ddarparu gwasanaethau, yn anfwriadol rhag ymgeisio am fusnes. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth mewn gwahanol sectorau i greu mwy o dryloywder ynglŷn â chyfleoedd i ymgeisio am fusnes sydd ar y gorwel, ac mae'r Pwyllgor yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru drafft i nodi a blaenoriaethu buddsoddiad i'r dyfodol a darparu rhestr dreigl o fuddsoddiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo.

54. Roedd tystiolaeth o'r sector busnesau bach yn tynnu sylw at agwedd 'ticio blychau' gan gontractwyr mawr tuag at gyflogi cwmnïau

lleol drwy ddigwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr'. Gall digwyddiadau o'r math hwn fod yn faich ychwanegol ar fusnesau bach gan eu bod yn golygu buddsoddi amser, heb o reidrwydd ddod â'r fantais o ennill is-gontractau lleol.

55. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi ymdrechion gan Lywodraeth Cymru i hwyluso digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr' i roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd ennill contractau i gwmnïau o Gymru mewn rhannau eraill o'r DU, er enghraifft ar gyfer Llundain 2012 a Crossrail. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ddigonol fod holl awdurdodau contractio Cymru, yn cynnwys awdurdodau lleol, yn cysylltu mewn modd gwerth chweil â'r sector busnes lleol a'u bod yn ei ddeall. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

> "The meeting point is that, if we can spend this money locally, we will have a sustainable business community and education sector and a healthy economy…that can only be done by generally engaging the local authorities or other procurers with small businesses; it cannot be done as a tick-box exercise over a congealed bacon sandwich in a hotel."

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yn ei hadolygiad o bolisi caffael cyhoeddus adolygiad o'r mesurau y mae'n eu cymryd i annog deialog cryf rhwng awdurdodau contractio cyhoeddus a busnesau yng Nghymru i wella dealltwriaeth o'r naill ochr a'r llall o sut y gellir defnyddio caffael cyhoeddus fel cyfrwng i hybu economi Cymru.**

### *Defnyddio Fframweithiau a Rheoli Cadwyni Cyflenwi*

56. Clywodd y grŵp dystiolaeth am ddefnydd aneffeithiol o gontractau fframwaith – gall awdurdodau contractio eu defnyddio fel llwybr cwta i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau ond gyda'r canlyniad fod cwmnïau o Gymru yn cael eu rhwystro rhag ymgeisio am y busnes. Mae angen annog awdurdodau contractio i ddefnyddio'r fframweithiau hyn yn ddeallus, gyda dealltwriaeth aeddfed o'u heffaith bosibl ar y farchnad leol a chadwyni cyflenwi lleol.

57. Rhaid hefyd cynorthwyo mwy o gwmnïau o Gymru i fanteisio ar gytundebau fframwaith. Nododd cynrychiolwyr o'r sector adeiladu fod defnyddio contractau fframwaith yn gallu golygu fod cwmnïau o Gymru yn colli gwaith lleol, ac y byddai arweiniad pellach gan

Lywodraeth Cymru i awdurdodau contractio a chwmnïau yn cael ei groesawu.

58. Roedd yr ymarferiad gwersi-a-ddysgwyd, yn adolygu dyfarnu dau fframwaith i roi'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar waith, yn nodi pwysigrwydd cynllunio strategaethau caffael yn effeithiol i sicrhau fod contractwyr brodorol yn gallu manteisio ar gytundebau fframwaith, a helpu BBaCh i gymryd rhan, a hynny'n cynnwys cynorthwyo trefniadau cydweithredu gan gonsortia. Hoffai'r Pwyllgor weld gwerthuso cadarn a chyfleu canlyniadau ymarferiadau cydweithio yng Nghymru i'r dyfodol.

### *Creu Lotiau ynteu Cyfuno Contractau*

59. Yn unol â'r arferion da presennol, dylid annog awdurdodau contractio, lle mae hynny'n ymarferol, i ddyfarnu contractau o faint y gall BBaCh fanteisio arnynt, gan ei gwneud yn haws felly i fusnesau lleol gamu i'r farchnad.

60. Archwiliodd yr ymchwiliad y tensiwn rhwng cyfuno contractau i arbed arian a rhannu contractau'n lotiau llai er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i BBaCh. Nododd Llywodraeth y DU y dylid ymdrin mewn ffyrdd gwahanol â chyfuno contractau a chreu lotiau yn dibynnu ar natur y contract dan sylw.

61. Cafwyd tystiolaeth anecdotaidd gan gynrychiolydd busnes am achos lle'r oedd awdurdod contractio wedi talu mwy am wasanaeth a gaffaelwyd drwy gyfuno contractau na fyddai wedi'i dalu pe bai contract uniongyrchol am y gwasanaeth hwnnw'n unigol wedi cael ei ddyfarnu. Yn yr enghraifft hon, bu cyflenwr lleol yn aflwyddiannus yn ymgeisio am waith gan yr awdurdod contractio, ond ef a ddarparodd y gwasanaethau yn ddiweddarach, am bris uwch, fel is-gontractiwr ar ran yr ymgeisydd llwyddiannus. Mae angen ystyried, felly, a fydd cyfuno contractau mewn gwirionedd yn dod ag arbedion mewn achosion unigol. Mae'r enghraifft hon yn amlygu'r tensiwn sy'n bodoli rhwng awdurdodau contractio yn dewis sicrwydd a symlrwydd cyfreithiol un contract gyda chyflenwr mawr sydd wedyn yn is-gontractio, a derbyn fod llai o sicrwydd cyfreithiol a mwy o gyfrifoldebau rheoli contract ynghlwm wrth ymwneud mwy ag is-gontracatu a chadwyni cyflenwi lleol.

## Cydweithio

62. Byddai'n bosibl cydweithio llawer mwy yn y sector caffael yng Nghymru a gallai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai mabwysiadu dull o weithredu drwy wasanaethau a rennir yn well ffordd o sicrhau arbedion a gwireddu amcanion polisi ehangach.

63. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r achos busnes sy'n cael ei baratoi er mwyn sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yng Nghymru, i ddelio ag oddeutu 20 y cant o wariant sector cyhoeddus cyffredin ac ailadroddus ar nwyddau drwy ddull 'unwaith i Gymru'. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau gan Gwerth Cymru y byddid yn cynnal ymarferiad i asesu effaith economaidd gweithredu fel hyn i sicrhau na fyddai'n arwain at arbedion cost ar draul twf economaidd cynaliadwy tymor hir a swyddi.

64. Mae'r enghraifft sy'n nodi dull Cyngor Dinas Birmingham o ymdrin â chaffael yn dangos manteision clir cydweithio drwy Banel Cynhwysiant Economaidd Gorllewin Canolbarth Lloegr. Canfu'r ymchwiliad nad oedd tystiolaeth o fanteision cydweithio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ymddangos yn glir eto, ac mae pryder, oni ellir gweld y manteision, y gallai hynny ddechrau annog pobl i beidio â gwneud yr ymdrech yn y dyfodol. Mae cydweithio effeithiol hefyd yn dibynnu ar rannu'r arferion gorau.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad trylwyr o ganlyniadau ymarferiadau caffael cydweithiol yng Nghymru; dylai gymharu'r canlyniadau â modelau cydweithio a ddefnyddir mewn rhannau eraill o'r DU; a dylai gyfleu a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru.**

## Hyrwyddo amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol

65. Mae'r Grŵp wedi clywed, er bod y Cyfarwyddebau cyfredol yn caniatáu hyrwyddo amcanion polisi cymdeithasol ac amgylcheddol drwy gaffael cyhoeddus, mai cyfyngedig yw'r defnydd o'r ddarpariaeth hon yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae rhesymau posibl am hyn eisoes wedi cael eu hamlygu: diffyg swyddogion caffael medrus a chreadigol, cyndynrwydd i gymryd risg o fewn awdurdodau contractio a diffyg rhannu'r arferion gorau.

66. Mae polisi manteision cymunedol yn fuddiol ond rhaid ei arddel yn gyson i sicrhau gwaddol wirioneddol, tymor hir. Pwysleisiwyd y pwynt hwn gan gynrychiolwyr o'r sector adeiladu, a nododd fod cymalau manteision cymdeithasol weithiau'n cael eu defnyddio mewn ffyrdd arwynebol nad ydynt yn cynnig budd gwirioneddol i'r ardal leol:

> "You need to be looking beyond whether the company has donated to the local football team…once those shirts have worn out, what is left? We need to be looking at how to develop the local children so that they gain the skills that will enable them to do the jobs. That would mean that Welsh companies and people could then deliver the more complicated jobs."

67. Lle caiff cymalau cymdeithasol eu defnyddio, er enghraifft y nifer o ddiwrnodau o hyfforddiant neu'r nifer o brentisiaethau sydd i gael eu darparu, mae angen i'r awdurdod contractio blismona hynny'n ddigonol.

68. Rhaid hefyd i lywodraeth a chyrff cyhoeddus fod ar flaen y gad yn sicrhau fod manteision cymunedol yn cael eu cymryd i ystyriaeth gan gontractwyr mawr ac mewn meysydd gwario nad ydynt wedi cael eu datganoli, er enghraifft gyda Network Rail a chynlluniau trydaneiddio i'r dyfodol, lle'r ymddengys fod yr ymwybyddiaeth o bolisi Manteision Cymunedol Llywodraeth Cymru yn isel.

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i fesurau i gynyddu ymwybyddiaeth o'i pholisi Manteision Cymunedol ymysg awdurdodau contractio sector cyhoeddus Cymru, yn ogystal ag awdurdodau contractio a chontractwyr sy'n gweithredu mewn meysydd allweddol o wariant nad ydynt wedi cael eu datganoli yng Nghymru, yn cynnwys trafnidiaeth a seilwaith arall.**

# Atodiad A – Cylch gorchwyl

Yn sgil cyhoeddi cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r grŵp gorchwyl a gorffen yn archwilio sut y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn effeithio ar gaffael cyhoeddus yng Nghymru, a sut y gellir mynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

- cynyddu nifer y busnesau bach a chanolig, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, sy'n ymgysylltu â'r maes caffael cyhoeddus;
- defnyddio caffael cyhoeddus i ddiwallu amcanion polisi eraill, fel polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol;
- cymhlethdodau a hyblygrwydd y system gaffael gyhoeddus.

Roedd y Pwyllgor wedi gwahodd sylwadau ar y materion canlynol:

- pa mor effeithiol yw'r rheoliadau caffael presennol o ran y modd y maent yn cael eu gweithredu yng Nghymru, a hynny o safbwynt cyflenwyr/contractwyr ac o safbwynt awdurdodau prynu?
- sut y byddai'r newidiadau arfaethedig i Gyfarwyddebau perthnasol yr UE yn effeithio ar y broses caffael cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y materion a ganlyn:
  - ymgysylltiad busnesau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) yn y broses caffael cyhoeddus;
  - defnyddio caffael cyhoeddus i ddiwallu amcanion polisi eraill (fel polisïau cymdeithasol ac amgylcheddol);
  - cymhlethdodau a hyblygrwydd rheolau caffael presennol;
  - gwerth am arian i'r awdurdod prynu?
  - sut dylid moderneiddio cyfarwyddebau caffael yr UE a'r rheoliadau gweithredu a'r codau ymarfer yng Nghymru, er mwyn cwrdd ag anghenion cyflenwyr/contractwyr ac awdurdodau prynu Cymreig, ac er mwyn gwneud y mwyaf o gapasiti cwmnïau Cymreig i gwrdd â'r heriau sydd ynghlwm â rheolau caffael? Yn benodol, sut dylid ail-lunio rheoliadau a/neu ganllawiau ar gyfer contractau nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon caffael a bennir gan gyfarwyddebau'r UE?

## Atodiad B – Llythyr oddi wrth y Pwyllgor Menter a Busnes at y Gweinidog Cyllid

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Enterprise and Business Committee

Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Llywodraeth Cymru

15 Chwefror 2012

Annwyl Weinidog

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen Polisi Caffael Ewrop**

Ddydd Iau 2il Chwefror cytunodd y Pwyllgor Menter a Busnes i ysgrifennu i godi pryderon ynglŷn â dwy agwedd o gynnig drafft y Comisiwn Ewropaidd am gyfarwyddeb yn ymwneud â chaffael cyhoeddus[7], i ddisodli Cyfarwyddeb 2004/18.

Tynnodd cynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor sylw'r Pwyllgor at baragraff olaf Erthygl 24.1 a fyddai'n caniatáu trosi'r Gyfarwyddeb yn rhannol yn unig yng nghyswllt gweithdrefnau caffael*: "Member States may decide not to transpose into national law the competitive procedure with negotiation, the competitive dialogue and the innovation partnership procedure."*

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor yn dal yn y broses o gynnal trafodaethau anffurfiol gyda rhanddeiliaid o Gymru ynglŷn â goblygiadau posibl y cynigion drafft i awdurdodau contractio a chyflenwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn amlwg yn bryderus, pe bai Llywodraeth y DU yn penderfynu peidio â throsi'r holl weithdrefnau caffael posibl yn gyfraith genedlaethol, y gallai hyn leihau'r posibiliadau i arloesi ac i sicrhau manteision cymdeithasol ac amgylcheddol drwy negodi.

Nid yw'r grŵp wedi cael digon o amser i drafod y mater hwn yn llawn gyda Swyddfa'r Cabinet, ond mae'n ymddangos y gellid datrys y mater un ai drwy ddileu disgresiwn yr Aelod Wladwriaeth o'r Gyfarwyddeb, drwy berswadio Llywodraeth y DU i drosi'r holl weithdrefnau y darperir ar eu

[7] Dogfen cyfeirnod COM(2011) 895 terfynol

cyfer yn y Gyfarwyddeb, neu drwy sicrhau dynodiad i alluogi Cymru i drosi ar wahân (fel y mae'r Alban eisoes yn ei wneud).

Byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor gael gwybod barn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Yn ail, fel y gwyddoch eisoes, mae gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bryderon ynglŷn â goblygiadau Erthygl 84 o'r gyfarwyddeb ddrafft, i sefydlu un 'corff trosolwg cenedlaethol' i bob Aelod Wladwriaeth. Mae memorandwm esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi y gallai hyn dorri egwyddorion sybsidiaredd a/neu gymesuredd, ac y gallai'r cynigion newydd ymddangos yn *"unjustifiably intrusive in requiring judicial and non-judicial functions to be combined in a particular way within a single body…"* Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn bryderus nad yw Erthygl 84, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, yn cydnabod datganoli, ei bod yn rhy rhagnodol, a'i bod yn aneglur a fyddai i gorff o'r fath fanteision cadarnhaol, ynteu na fyddai ond yn ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth (gostus o bosibl) i'r gyfundrefn gaffael.

Rôl Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad yw ystyried goblygiadau cyfreithiol y cynnig neilltuol hwn, a thynnu sylw at unrhyw bryderon yn deillio o wiriad sybsidiaredd gyda Phwyllgorau Ewropeaidd perthnasol Senedd y DU. Fodd bynnag, gan fod y cynigion eisoes yn destun craffu yn y Pwyllgorau seneddol hynny, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cadeiryddion perthnasol, gyda chais ar iddynt, os yw'n bosibl o gwbl, archwilio'r materion hyn gyda Llywodraeth y DU yn ystod y broses graffu honno.

Yr eiddoch yn gywir

Nick Ramsay AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Menter a Busnes

Julie James AC
Cadeirydd, Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Bolisi Caffael Ewrop, y Pwyllgor Menter a Busnes

**Copïau i:**

Mr William Cash AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Craffu Ewropeaidd
Tŷ'r Cyffredin

Y Farwnes O'Cathain,
Cadeirydd, Is-bwyllgor B yr UE – y Farchnad Fewnol, Ynni a Thrafnidiaeth
Tŷ'r Arglwyddi

David Melding AC,
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Edwina Hart MBE OStJ AC
Y Gweinidog dros Fusnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Atodiad C – Adroddiad Sybsidiaredd y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Adroddiad Sybsidiaredd**

**Cynnig ar gyfer Cyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd ar Gaffael Cyhoeddus**

Caiff yr adroddiad hwn ei osod yn dilyn trafodaeth gan y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 21.8 ynghylch agweddau ar y gyfarwyddeb arfaethedig y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael y Pwyllgor Menter a Busnes. Bydd yr adroddiad yn sail ar gyfer sylwadau a wneir i bwyllgorau perthnasol Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi o dan Reol Sefydlog 21.9.

## Y Cyd-destun Cyfreithiol

1. Mae egwyddor sybsidiaredd wedi'i hymgorffori yn Erthygl 5 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd:

> *"Article 5*
>
> *(ex Article 5 TEC)*
>
> *1. The limits of Union competences are governed by the principle of conferral. The use of Union competences is governed by the principles of subsidiarity and proportionality.*
>
> *2. Under the principle of conferral, the Union shall act only within the limits of the competences conferred upon it by the Member States in the Treaties to attain the objectives set out therein. Competences not conferred upon the Union in the Treaties remain with the Member States.*

*3. Under the principle of subsidiarity, in areas which do not fall within its exclusive competence, the Union shall act only if and in so far as the objectives of the proposed action cannot be sufficiently achieved by the Member States, either at central level or at regional and local level, but can rather, by reason of the scale or effects of the proposed action, be better achieved at Union level.*

*The institutions of the Union shall apply the principle of subsidiarity as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality. National Parliaments ensure compliance with the principle of subsidiarity in accordance with the procedure set out in that Protocol.*

*4. Under the principle of proportionality, the content and form of Union action shall not exceed what is necessary to achieve the objectives of the Treaties.*

*The institutions of the Union shall apply the principle of proportionality as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality. EN C 83/18 Official Journal of the European Union."*

2. Llywodraethir y dull o'i gymhwyso gan y Protocol ar Gymhwyso Egwyddorion Sybsidiaredd a Chymesuredd, a'r rhan berthnasol ohono at ein dibenion ni yw paragraff cyntaf Erthygl 6:

*"Any national Parliament or any chamber of a national Parliament may, within eight weeks from the date of transmission of a draft legislative act, in the official languages of the Union, send to the Presidents of the European Parliament, the Council and the Commission a reasoned opinion stating why it considers that the draft in question does not comply with the principle of subsidiarity. It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers."* [Our emphasis.]

**Cynigion y Comisiwn**

3. Ar 20 Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynnig ar gyfer Cyfarwyddeb newydd ynghylch Caffael Cyhoeddus. Mae'r cynnig hwn wedi bod yn destun trafodaeth fanwl gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol. Fel rhan o'r drafodaeth honno, edrychodd y Grŵp ar y Memorandwm Esboniadol a baratowyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y Pwyllgorau Seneddol

ynghylch materion Ewropeaidd. Wrth drafod sybsidiaredd, roedd y Memorandwm yn datgan fel a ganlyn:

> *"SUBSIDIARITY*
>
> *29. The Government is concerned that aspects of the proposal for national oversight bodies may infringe the principles of subsidiarity and/or proportionality. These proposals, which had not been foreshadowed in the Commission's Green Paper or otherwise consulted on, would require the UK to allow its national oversight body to 'seize' the jurisdiction currently exercisable by British courts of law to determine disputes about compliance with the procurement rules, where a violation is detected by the oversight body in the course of its monitoring and legal advisory work (see the final paragraph of article 84(3) of the proposed directive). This is a truly judicial function, the exercise of which could affect the rights of second and third parties as well as the contracting authority (these may include not only an unsuccessful complaining supplier, but a successful supplier with which the contracting authority has entered into a contract, as the jurisdiction would enable such a contract to be declared 'ineffective').*
>
> *30. The various other functions of the oversight body, as they appear from article 84(3), are primarily administrative or regulatory. The proposal would therefore require the UK to combine in a single body a mixture of administrative, regulatory and judicial functions, with the power to take over, in particular cases, the jurisdiction which currently rests, in England and Wales and Northern Ireland, with the High Court under Part 9 of the Public Contracts Regulations 2006 (SI 2006/5 as amended) which implements Directive 89/665/EEC (as amended) which addresses remedies for breach of the procurement rules. The latter directive respected the diversity of legal traditions among Member States by allowing each Member State the flexibility to determine the bodies it regards as suitable to exercise the judicial function of resolving disputes between suppliers and contracting authorities.*
>
> *31. The new proposal seems to the Government to be unjustifiably intrusive in requiring judicial and non-judicial functions to be combined in a particular way within a single body and in requiring that this body be able to pre-empt the role of the courts to which the UK has entrusted the remedies functions under Directive 89/665/EEC. In this respect, the proposal may call into question the practical viability of continuing in the UK to confer a role on the*

*courts concurrently with the proposed hybrid oversight body. More widely, this aspect of the proposal may set an unwelcome precedent of interference with how Member states structure their judicial systems in accordance with national legal traditions. In particular, it may accord insufficient respect for the Common Law tradition in which judicial and administrative/regulatory functions tend to be more clearly separated than in some other traditions which prevail in other parts of the EU."*

4. Byddai'r 'corff trosolwg cenedlaethol' yn cael ei sefydlu o dan Erthyglau 84-86 o'r Gyfarwyddeb ddrafft. Mae Erthygl 84, sy'n nodi'r swyddogaeth arfaethedig, wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn er mwyn gallu cyfeirio ati. O'n rhan ni, mae'r geiriad hanfodol yn ymddangos yn y frawddeg gyntaf, "Member States shall appoint a **single** independent body responsible for the oversight and coordination of implementation activities (hereinafter 'the oversight body')." Mae cynnig y Comisiwn yn cynnwys yr esboniad a ganlyn –

"National oversight bodies: *The evaluation has shown that not all Member States are consistently and systematically monitoring the implementation and functioning of the public procurement rules. This compromises the efficient and uniform application of European Union law. The proposal provides therefore that Member States designate a single national authority in charge of monitoring, implementation and control of public procurement. Only a single body with overarching tasks will ensure an overview of main implementation difficulties and will be able to suggest appropriate remedies to more structural problems. It will be in the position to provide immediate feedback on the functioning of the policy and the potential weaknesses in national legislation and practice, thus contributing to the quick identification of solutions and the improvement of the procurement procedures."*

5. Y gwahaniaeth arferol rhwng Cyfarwyddebau a Rheoliadau o ran deddfwriaeth Ewropeaidd yw bod y cyntaf yn nodi beth sydd i'w wneud, gan adael i'r Aelod-wladwriaethau ddefnyddio'u disgresiwn o ran sut i wneud hynny. Mae Rheoliadau, ar y llaw arall, yn gymwys yn uniongyrchol, hyd yn oed os yw ychydig o ddeddfwriaeth gweithredu, fel trefniadau gorfodi, yn cael eu gadael i'r Aelod-wladwriaethau. Yn yr achos hwn, mae'r Gyfarwyddeb yn honni ei bod yn dweud wrth yr Aelod-wladwriaethau sut i fodloni gofynion y trosolwg, ac yn benodol drwy nodi ei fod i gael ei wneud gan un corff.

6. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi nodi y byddai dull felly yn groes i egwyddor sybsidiaredd drwy ei gwneud yn ofynnol i gorff gweinyddol gynnal swyddogaethau a fyddai, fel arfer, yn cael eu gwneud gan y llysoedd yn y DU.

**Rydym yn cytuno â'r asesiad hwnnw ac yn cefnogi'r gwrthwynebiad i'r gofyniad am gorff trosolwg cenedlaethol am ei fod yn mynd yn groes i egwyddor sybsidiaredd yn y ffordd honno.**

7. Mae'r cynnig hefyd yn methu ag ystyried egwyddor datganoli drwy roi'r dyletswyddau ar un corf. Mae'n methu ag adlewyrchu'r ffordd y mae rheoliadau gweithredu ar wahân wedi cael eu gwneud yn yr Alban, a'r ffordd y mae swyddogaethau gweinyddu a chynghori eang mewn cysylltiad â chaffael yng Nghymru yn cael eu gweithredu gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan. Dylid cyferbynnu hyn ag Erthygl 87 sy'n ymdrin â rhoi cymorth i awdurdodau a busnesau sy'n contractio. Mae Erthygl 87.4 yn darparu'n benodol –

> *"For the purposes of paragraphs 1, 2 and 3, Member States may appoint a single body or several bodies or administrative structures. Member States shall ensure due coordination between those bodies and structures."*

8. Ar hyn o bryd, nid yw Erthygl 84 yn cynnig yr un hyblygrwydd a ddarperir gan Erthygl 87. Roedd gwahaniaeth barn ymysg y tystion a roddodd dystiolaeth i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ran pa mor ddymunol yw'r trefniadau newydd arfaethedig. Ar y cyfan, mae cynrychiolwyr cyrff cyhoeddus wedi ystyried hyn yn elfen ychwanegol o fiwrocratiaeth, ond roedd cyngor sgiliau'r sector adeiladu o'r farn y gallai corff trosolwg cenedlaethol yng Nghymru fod yn ddefnyddiol o ran monitro'r gwaith o gymhwyso'r rheoliadau.

**Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad, felly, hyd yn oed pe bai corff trosolwg cenedlaethol yn cael ei sefydlu at ddibenion cyflwyno adroddiadau o dan Erthygl 84.2, y dylai Aelod-wladwriaethau allu cymryd cyfrifoldeb dros eu strwythurau cyfansoddiadol eu hunain. Byddai'n bosibl gwneud trefniadau o'r fath drwy roi yr un faint o hyblygrwydd yn Erthygl 84 â'r hyn a ddarperir ar ei gyfer yn Erthygl 87. Byddai hynny, o leiaf yn lleddfu'r graddau y mae Erthygl 84 yn mynd yn groes i'r egwyddor sybsidiaredd.**

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Chwefror 2012

**ATODIAD**

“Article 84

Public oversight

1. Member States shall appoint a single independent body responsible for the oversight and coordination of implementation activities (hereinafter 'the oversight body'). Member States shall inform the Commission of their designation. All contracting authorities shall be subject to such oversight.

2. The competent authorities involved in the implementation activities shall be organised in such a manner that conflicts of interests are avoided. The system of public oversight shall be transparent. For this purpose, all guidance and opinion documents and an annual report illustrating the implementation and application of rules laid down in this Directive shall be published.

The annual report shall include the following:

(a) an indication of the success rate of small and medium-sized enterprises (SMEs) in public procurement; where the percentage is lower than 50 % in terms of values of contracts awarded to SMEs, the report shall provide an analysis of the reasons therefore;

(b) a global overview of the implementation of sustainable procurement policies, including on procedures taking into account considerations linked to the protection of the environment, social inclusion including accessibility for persons with disabilities, or fostering innovation;

(c) information on the monitoring and follow-up of breaches to procurement rules affecting the budget of the Union in accordance with paragraphs 3 to 5 of the present article;

(d) centralized data about reported cases of fraud, corruption, conflict of interests and other serious irregularities in the field of public procurement, including those affecting projects cofinanced by the budget of the Union.

3. The oversight body shall be responsible for the following tasks:

(a) monitoring the application of public procurement rules and the related practice by contracting authorities and in particular by central purchasing bodies;

(b) providing legal advice to contracting authorities on the interpretation of public procurement rules and principles and on the application of public procurement rules in specific cases;

(c) issuing own-initiative opinions and guidance on questions of general interest pertaining to the interpretation and application of public procurement rules, on recurring questions and on systemic difficulties related to the application of public procurement rules, in the light of the provisions of this Directive and of the relevant case-law of the Court of Justice of the European Union;

(d) establishing and applying comprehensive, actionable 'red flag' indicator systems to prevent, detect and adequately report instances of procurement fraud, corruption, conflict of interest and other serious irregularities;

(e) drawing the attention of the national competent institutions, including auditing authorities, to specific violations detected and to systemic problems;

(f) examining complaints from citizens and businesses on the application of public procurement rules in specific cases and transmitting the analysis to the competent contracting authorities, which shall have the obligation to take it into account in their decisions or, where the analysis is not followed, to explain the reasons for disregarding it;

(g) monitoring the decisions taken by national courts and authorities following a ruling given by the Court of Justice of the European Union on the basis of Article 267 of the Treaty or findings of the European Court of Auditors establishing violations of Union public procurement rules related to projects cofinanced by the Union; the oversight body shall report to the European Anti-Fraud Office any infringement to Union procurement procedures where these were related to contracts directly or indirectly funded by the European Union.

The tasks referred to in point (e) shall be without prejudice to the exercise of rights of appeal under national law or under the system established on the basis of Directive

Member States shall empower the oversight body to seize the jurisdiction competent according to national law for the review of contracting authorities' decisions where it has detected a violation in the course of its monitoring and legal advising activity.

4. Without prejudice to the general procedures and working methods established by the Commission for its communications and contacts with Member States, the oversight body shall act as a specific contact point for the Commission when it monitors the application of Union law and the implementation of the budget from the Union on the basis of Article 17 of the Treaty on the European Union and Article 317 of the Treaty on the Functioning of the European Union. It shall report to the Commission any violation of this Directive in procurement procedures for the award of contracts directly or indirectly funded by the Union.

The Commission may in particular refer to the oversight body the treatment of individual cases where a contract is not yet concluded or a review procedure can still be carried out. It may also entrust the oversight body with the monitoring activities necessary to ensure the implementation of the measures to which Member States are committed in order to remedy a violation of Union public procurement rules and principles identified by the Commission.

The Commission may require the oversight body to analyse alleged breaches to Union public procurement rules affecting projects co-financed by the budget of the Union. The Commission may entrust the oversight body to follow-up certain cases and to ensure that the appropriate consequences of breaches to Union public procurement rules affecting projects co-financed are taken by the competent national authorities which will be obliged to follow its instructions.

5. The investigation and enforcement activities carried out by the oversight body to ensure that contracting authorities' decisions comply with this Directive and the principles of the Treaty shall not replace or prejudge the institutional role of the Commission as guardian of the Treaty. When the Commission decides to refer the treatment of an individual case pursuant to paragraph 4, it shall also retain the right to intervene in accordance with the powers conferred to it by the Treaty.

6. Contracting authorities shall transmit to the national oversight body the full text of all concluded contracts with a value equal to or greater than

(a) 1 000 000 EUR in the case of public supply contracts or public service contracts;

(b) 10 000 000 EUR in the case of public works contracts.

7. Without prejudice to the national law concerning access to information, and in accordance with national and EU legislation on data protection, the oversight body shall, upon written request, give unrestricted and full direct access, free of charge, to the concluded contracts referred to in paragraph 6. Access to certain parts of the contracts may be refused where their disclosure would impede law enforcement or otherwise be contrary to the public interest, would harm the legitimate commercial interests of economic operators, public or private, or might prejudice fair competition between them.

Access to the parts that may be released shall be given within a reasonable delay and no later than 45 days from the date of the request.

The applicants filing a request for access to a contract shall not need to show any direct or indirect interest related to that particular contract. The recipient of information should be allowed to make it public.

8. A summary of all the activities carried out by the oversight body in accordance with paragraphs 1 to 7 shall be included in the annual report referred to in paragraph 2."

## Tystion

Cyfarfu'r tystion isod yn anffurfiol â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Mae'r nodiadau o'r cyfarfodydd i'w gweld ar http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1672

*19 Ionawr 2012*

| | |
|---|---|
| Deryck Evans | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Rees | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Jeremy Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Iolo Llewelyn | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid ar Arweinydd y Tŷ | Llywodraeth Cymru |
| Michael Hearty, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad | Llywodraeth Cymru |
| Alison Standfast, Dirprwy Gyfarwyddwr Caffael, Gwerth Cymru | Llywodraeth Cymru |
| Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol | Llywodraeth Cymru |

*2* Chwefror *2012*

| | |
|---|---|
| Mark Roscrow, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Caffael | Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru |
| Nic Cowley, Gwasanaethau Caffael | Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru |
| Vince Hanly, Cyfarwyddwr Gwasanaeth dros Gaffael | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Rob Jones, Rheolwr Caffael | Consortiwm Prynu Cymru |
| Liz Lucas, Pennaeth Caffael | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |

| | |
|---|---|
| Paul Charkiw, Pennaeth Effeithlonrwydd a Chaffael | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Sally Collier, Cyfarwyddwr Gweithredol y Grŵp Effeithlonrwydd a Diwygio | Swyddfa'r Cabinet |
| Martin Leverington, Cynghorydd Polisi Caffael | Swyddfa'r Cabinet |

*8 Chwefror 2012*

| | |
|---|---|
| Yr Athro Kevin Morgan | Prifysgol Caerdydd |
| Rhodri Jones, Cadeirydd | Wales Construction Federation Alliance |
| Cyfarwyddwr | Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cymru |
| Philip Avery, Swyddog Gweithredol Gweithrediadau | Ffederasiwn Cenedlaethol Adeiladwyr Cymru |
| Wyn Pritchard, Cyfarwyddwr | Sgiliau Adeiladu Cymru |
| Ruth James, Fforwm Adeiladu Gogledd Cymru, Rheolwr Masnachol | Jones Bros Civil Engineering |
| Clive Webb, Fforwm Adeiladu De-orllewin Cymru, Rheolwr Masnachol | Boyes Rees Architects |
| Robert Williams, Fforwm Adeiladu De-ddwyrain Cymru, Rheolwr Gyfarwyddwr | WRW Construction Ltd. |
| Pete Fahy, Pennaeth Comisiynu Strategol | Cyngor Dinas Coventry |

*23 Chwefror 2012*

| | |
|---|---|
| Iestyn Davies, Pennaeth Materion Allanol | Y Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Debbie Scott, Cyfarwyddwr | Groundsolve Ltd. |
| Howard Allaway, Rheolwr Caffael | Consortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru |
| Rhidian Morgan, Pennaeth Caffael | Partneriaeth Gaffael Addysg Uwch De-orllewin Cymru |
| Mark Barrow, Cyfarwyddwr Strategol Datblygu | Cyngor Dinas Birmingham |

*14 Mawrth 2012*

| | |
|---|---|
| Alison Standfast, Dirprwy Gyfarwyddwr Caffael | Gwerth Cymru |
| Nick Sullivan, Pennaeth Polisi a Gallu | Gwerth Cymru |
| Kerry Wilson, Pennaeth Caffael | Gwerth Cymru |

## Ymatebion i'r Ymgynghori

Ymatebodd y bobl a'r sefydliadau isod i ymgynghoriad cyhoeddus y Pwyllgor. Gellir gweld pob ymateb yn llawn ar http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1672

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Sefydliad y Peirianwyr Sifil | 01 |
| Richard Gaunt | 02 |
| Cymdeithas Feddygol Prydain | 03 |
| Cynghrair Ffederasiwn Adeiladu Cymru | 04 |
| Canolfan Gydweithredol Cymru | 05 |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | 06 |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 07 |
| Peter Davies | 08 |
| Fforwm Adeiladu Gogledd Cymru | 09 |
| Rathbone Cymru | 10 |
| Fforwm Adeiladu De-ddwyrain Cymru | 11 |
| Y Sefydliad Tai Siartredig a i-2-i | 12 |
| Y Panel Adfywio Cenedlaethol | 13 |